

## **Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Disgyblion a Rhieni**

Ysgol Gynradd Bro Ogwr

Mae YG Bro Ogwr yn ymrwymedig i warchod preifatrwydd a diogelwch gwybodaeth bersonol. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn disgrifio sut yr ydym yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol am ddisgyblion, yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU.

Yn dilyn Brexit, mae Rheoliad (UE) 2016/679, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn gyfraith yr UE a ddargedwir ac fe'i hadwaenir fel GDPR y DU. Mae GDPR y DU yn eistedd ochr yn ochr â fersiwn ddiwygiedig o Ddeddf Diogelu Data 2018 sy'n ymwneud â phrosesu data personol yn gyffredinol, pwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth a sancsiynau a gorfodaeth. Caiff y GDPR fel y mae'n parhau i fod yn berthnasol yn yr UE ei adnabod fel GDPR yr UE.

### **Pwy Sy'n Casglu'r Wybodaeth Hon**

Mae YG Bro Ogwr yn "rheolydd data." Golyga hyn ein bod yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn dal ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol am ddisgyblion a rhieni.

### **Categoriâu'r Wybodaeth Am Ddisgyblion Yr Ydym Yn Ei Chasglu, Ei Phrosesu, Ei Dal A'i Rhannu**

Gallwn gasglu, storio a defnyddio gwybodaeth bersonol amdanoch chi yn y categorïau canlynol: -

- Gwybodaeth bersonol megis enw, rhif y disgybl, dyddiad geni, rhywedd a gwybodaeth gyswllt;
- Gwybodaeth gyswllt frys a gwybodaeth am ffordd y teulu o fyw megis enwau, perthynas, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost;
- Nodweddion (megis ethnigrwydd, iaith, cenedligrwydd, gwlad enedigol a chymhwystra i gael prydau ysgol am ddim;
- Manylion presenoldeb (megis sesiynau a fynychwyd, nifer yr absenoldebau a rhesymau dros absenoldebau);
- Gwybodaeth am berfformiad ac asesu;
- Gwybodaeth ymddygiadol (gan gynnwys gwaharddiadau);
- Gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig;
- Gwybodaeth feddygol berthnasol;
- Data personol mewn categorïau arbennig (gan gynnwys gwybodaeth feddygol berthnasol, gwybodaeth am anghenion addysgol arbennig);
- Delweddau o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol, a delweddau a gipiwyd gan system Teledu Cylch Cyfyng yr Ysgol;
- Gwybodaeth am ddefnyddio ein systemau TG, cyfathrebu a systemau eraill, a gwybodaeth fonitro arall.

### **Casglu'r Wybodaeth Hon**

Er bod y mwyafrif o'r wybodaeth yr ydych yn ei darparu ar ein cyfer yn orfodol, darperir peth ohoni ar ein cyfer ar sail wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, byddwn yn eich hysbysu a yw'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth benodol am ddisgyblion ar ein cyfer ynteu a oes gennych ddewis yn hyn o beth.

Mae'n bwysig bod yr wybodaeth bersonol yr ydym yn ei dal amdanoch chi'n gywir ac yn gyfredol. Hysbyswch ni os yw eich gwybodaeth bersonol yn newid yn ystod eich perthynas weithio â ni os gwelwch yn dda.

### **Sut Yr Ydym Yn Defnyddio Eich Gwybodaeth Bersonol**

Rydym yn dal data ar ddisgyblion ac yn ei defnyddio ar gyfer: -

- Dethol disgyblion (ac i gadarnhau pwy yw darpar ddisgyblion a'u rhieni);
- Darparu gwasanaethau addysg a gweithgareddau allgyrsiol ar gyfer disgyblion, a monitro cynnydd ac anghenion addysgol disgyblion;
- Goleuo penderfyniadau megis cyllid ar gyfer ysgolion;
- Asesu perfformiad a phennu targedau ar gyfer ysgolion;
- Diogelu lles disgyblion a rhoi gofal bugeiliol (a, lle y bo angen, meddygol) priodol;
- Cefnogi'r dysgu a'r addysgu;
- Rhoi a chael gwybodaeth a geir daon am gyn-ddisgyblion, disgyblion presennol a darpar ddisgyblion, a darparu geir daon ar gyfer cyflogwyr posibl cyn-ddisgyblion;
- Rheoli polisiau a gweithdrefnau mewnol;
- Galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn asesiadau, cyhoeddi canlyniadau arholiadau a chofnodi cyflawniadau disgyblion;
- Cynnal dadansoddiad ystadegol at ddibenion amrywiaeth;
- At ddibenion cyfreithiol a rheoleiddiol (er enghraifft amddiffyn plant, monitro amrywiaeth ac iechyd a diogelwch) a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol a dyletswyddau gofal;
- Galluogi awdurdodau perthnasol i fonitro perfformiad yr ysgol ac i ymyrryd neu gynorthwyo gyda digwyddiadau fel y bo'n briodol;
- Monitro defnydd o systemau TG a chyfathrebu'r ysgol yn unol â pholisi diogelwch TG yr ysgol;
- Defnyddio delweddau ffotograffig o ddisgyblion yng nghyhoeddiadau'r ysgol, ar wefan yr ysgol ac ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol;
- At ddibenion diogelwch, gan gynnwys Teledu Cylch Cyfyng; a
- Lle y bo'n rhesymol angenrheidiol fel arall at ddibenion yr ysgol, gan gynnwys i gael cyngor ac yswiriant proffesiynol priodol i'r ysgol.

### **Y Sail Gyfreithiol I Ddefnyddio'r Wybodaeth Hon Gennym Ni**

Dim ond pan fo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth. Yn fwyaf cyffredin, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn yr amgylchiadau canlynol: -

- Cydsyniad: mae'r unigolyn wedi rhoi cydsyniad eglur i brosesu eu data personol at ddiben penodol;
- Contract: mae angen prosesu'r wybodaeth ar gyfer contract gyda'r unigolyn;
- Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'n angenrheidiol prosesu'r wybodaeth i gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol) – er enghraifft CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).
- Buddiannau hollbwysig: mae angen prosesu'r wybodaeth i amddiffyn bywyd rhywun.
- Gorchwyl cyhoeddus: mae angen prosesu'r wybodaeth i gyflawni gorchwyl er budd y cyhoedd neu ar gyfer swyddogaethau swyddogol, ac mae i'r gorchwyl neu'r swyddogaeth sail eglur mewn cyfraith

Mae arnom angen yr wybodaeth yn yr holl categorïau yn y rhestr uchod yn bennaf i'n galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol. Sylwer y gallwn brosesu gwybodaeth heb yn wybod i chi neu heb eich cydsyniad chi, lle mae hyn yn ofynnol neu'n cael ei ganiatáu yn ôl y gyfraith.

## **Rhannu Data**

Gall fod angen i ni rannu eich data gyda thrydydd partïon lle mae hynny'n angenrheidiol. Ceir rheolaethau llym o ran pwy all weld eich gwybodaeth. Ni fyddwn yn rhannu eich data os ydych wedi ein hysbysu nad ydych am iddo gael ei rannu oni bai mai dyna'r unig ffordd y gallwn wneud yn siŵr eich bod yn gallu cadw'n ddiogel ac yn iach neu ei bod yn ofynnol yn gyfreithiol i ni wneud hynny.

Rydym yn rhannu gwybodaeth am ddisgyblion gyda: -

- Llywodraeth Cymru;
- Estyn;
- Ysgolion eraill y mae disgyblion wedi/yn mynd i fod yn eu mynychu;
- Y GIG;
- Gwasanaethau lles (megis y gwasanaethau cymdeithasol);
- Swyddogion gorfodi'r gyfraith megis yr heddlu, Cyllid a Thollau EM;
- Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol;
- Cynghorwyr proffesiynol megis cyfreithwyr ac ymgynghorwyr;
- Gwasanaethau cymorth (gan gynnwys yswiriant, cymorth TG, diogelwch gwybodaeth);
- Darparwyr meddalwedd dysgu megis Hwb a hefyd
- Yr Awdurdod Lleol.

Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu ar gyfer yr asiantaethau hynny mewn modd diogel neu'n cael ei chadw'n ddiennw lle y bo'n bosibl.

Bydd derbynnydd yr wybodaeth wedi'i rwymo gan rwymedigaethau cyfrinachedd; byddwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt barchu diogelwch eich data a'i drin yn unol â'r gyfraith.

## **Pam Ein Bod Yn Rhannu'r Wybodaeth Hon**

Nid ydym yn rhannu gwybodaeth am ein disgyblion gydag unrhyw un heb gydsyniad oni bai bod hynny'n ofynnol fel arall yn ôl y gyfraith.

Er enghraifft, rydym yn rhannu data disgyblion gydag Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru ar sail statudol at ddibenion cyfrifiad sy'n tanategu cyllid ysgolion a chyrhaeddiad addysgol.

## **Storio Data Disgyblion**

Mae'r Ysgol yn cadw gwybodaeth am ddisgyblion ar systemau cyfrifiadurol ac weithiau ar bapur.

Ac eithrio fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, dim ond am gyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unol â fframiau amser a osodir gan y gyfraith a'n polisi mewnol ni y mae'r Ysgol yn cadw gwybodaeth am ddisgyblion.

Ceir manylion llawn o ran am ba mor hir yr ydym yn cadw data personol yn ein polisi cadw data.

## **Prosesau Penderfynu Awtomataidd**

Mae prosesau penderfynu awtomataidd yn digwydd pan fo system electronig yn defnyddio gwybodaeth bersonol i wneud penderfyniad heb ymyrraeth ddynol. Caniateir i ni ddefnyddio prosesau penderfynu awtomataidd mewn amgylchiadau cyfyngedig.

Ni fydd penderfyniadau awtomataidd yn cael eu gwneud am ddisgyblion, oni bai bod gennym sail gyfreithiol i wneud hynny a'n bod ni wedi eich hysbysu chi.

### **Diogelwch**

Rydym wedi rhoi mesurau ar waith i warchod diogelwch eich gwybodaeth (h.y. rhag ei cholli, ei defnyddio neu ei chyrchu ar ddamwain mewn ffordd ddiawdurdod).

### **Casglu Data Cenedlaethol (NDC)**

Caiiff NDC ei redeg gan Lywodraeth Cymru ac mae'n cynnwys gwybodaeth am ddisgyblion mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'n darparu tystiolaeth amhrisiadwy ar berfformiad addysgol i oleuo ymchwil annibynnol, yn ogystal ag astudiaethau a gomisiynir gan y Llywodraeth. Fe'i cynhelir mewn fformat electronig at ddibenion ystadegol. Caiiff yr wybodaeth hon ei chasglu'n ddiogel o ystod o ffynonellau gan gynnwys ysgolion, awdurdodau lleol a chyrrff dyfarnu.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith ein bod yn darparu gwybodaeth am ein disgyblion ar gyfer Llywodraeth Cymru fel rhan o gasgliadau data statudol megis CYBLD, casglu data ôl-16, casglu data cenedlaethol a chasglu presenoldeb.

I gael rhagor o wybodaeth am NDC, ewch at y dudalen <https://llyw.cymru/casglu-data-cenedlaethol-nodiadau-cwblhau-technegol-ar-gyfer-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol>

Gall y Llywodraeth rannu neu gael gwybodaeth am ein disgyblion ynghylch asesiadau'r cwricwlwm, canlyniadau arholiadau a data presenoldeb. Mae'r Llywodraeth hefyd yn fwyaf tebygol o rannu data gyda'r sefydliadau canlynol: -

- Yr awdurdod lleol;
- Estyn;
- Gyrfa Cymru;
- Cymwysterau Cymru ac unrhyw gorff a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru fel corff sy'n dyfarnu cymwysterau yng Nghymru (er enghraifft CBAC);
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol;
- Yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau;
- Y Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual) yn Lloegr ac unrhyw gorff a gydnabyddir gan Ofqual;

I gael mynediad at wybodaeth am ddisgyblion, rhaid i sefydliadau gydymffurfio â thelerau ac amodau llym sy'n ymwneud â chyfrinachedd a thrin y data, trefniadau diogelwch a chadw a defnyddio'r data.

### **Gofyn Am Fynediad At Eich Data Personol**

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gan rieni a disgyblion yr hawl i ofyn am fynediad at wybodaeth amdanynt yr ydym ni'n ei dal. I wneud cais am eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â Mrs Sharon Jayne.

Mae gennych hefyd yr hawl i wneud y canlynol: -

- Gwrthwynebu prosesu data personol pan fo hynny'n debygol o achosi, neu pan fo eisoes yn achosi, niwed neu drallod;
- Atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol;
- Gwrthwynebu gwneud penderfyniadau trwy ddulliau awtomataidd;
- Mewn rhai amgylchiadau, sicrhau bod data personol anghywir yn cael ei gywiro, ei flocio, ei ddileu neu ei ddifa; a
- Hawlio iawndal am niwed a achoswyd o ganlyniad i dorri'r rheoliadau diogelu data.

Os oes arnoch eisiau arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, cysylltwch â Mrs Sharon Jayne yn ysgrifenedig.

Efallai y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth benodol gennych i'n helpu i gadarnhau pwyr ydych a sicrhau eich hawl i gael mynediad at yr wybodaeth (neu i arfer unrhyw hawliau eraill sydd gennych). Mae hwn yn fesur diogelwch priodol arall i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu wrth unrhyw un sydd heb hawl i'w chael.

### **Hawl I Dynnu Cydsyniad Yn Ôl**

Mewn amgylchiadau lle'r ydych o bosibl wedi rhoi eich cydsyniad i gasglu, prosesu a throsglwyddo eich gwybodaeth bersonol at ddiben penodol, mae gennych yr hawl i dynnu eich cydsyniad ar gyfer prosesu at y diben penodol hwnnw yn ôl unrhyw bryd. I dynnu eich cydsyniad yn ôl, cysylltwch â Mrs Sharon Jayne. Unwaith y byddwn wedi cael ein hysbysu eich bod wedi tynnu eich cydsyniad yn ôl, ni fyddwn yn prosesu eich gwybodaeth mwyach at y diben neu'r dibenion y cytunoch chi ag ef neu â hwy'n wreiddiol, oni bai bod gennym sail ddilys arall dros wneud hynny mewn cyfraith.

### **Cyswllt**

Os hoffech drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn neu os oes gennych bryder ynghylch y ffordd yr ydym yn casglu neu'n defnyddio eich data personol, gofynnwn i chi godi eich pryder gyda Mrs Sharon Jayne yn y lle cyntaf.

Rydym wedi penodi swyddog diogelu data (SDD) i oruchwylio'r modd y cydymffurfir â diogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd hwn. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y modd yr ydym yn trin eich gwybodaeth bersonol na allant gael eu datrys gan Mrs Sharon Jayne, yna gallwch gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data ar y manylion isod: -

Swyddog Diogelu Data: Judicium Consulting Limited  
Cyfeiriad: 72 Cannon Street, London, EC4N 6AE  
E-bost: [dataservices@judicium.com](mailto:dataservices@judicium.com)  
Gwefan: [www.judiciumeducation.co.uk](http://www.judiciumeducation.co.uk)  
Cyswllt Arweiniol: Craig Stilwell

Mae gennych yr hawl i gyfleu cwyn unrhyw bryd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio'r DU ar gyfer materion diogelu data yn <https://ico.org.uk/concerns>.

### **Newidiadau I'r Hysbysiad Preifatrwydd Hwn**

Rydym yn cadw'r hawl i ddiweddarau'r hysbysiad preifatrwydd hwn unrhyw bryd, a byddwn yn darparu hysbysiad preifatrwydd newydd ar eich cyfer pan fyddwn yn gwneud unrhyw ddiweddariadau sylweddol. Gallwn eich hysbysu mewn ffyrdd eraill o bryd i'w gilydd hefyd ynghylch prosesu eich gwybodaeth bersonol.